# Y CABINET DYDD MAWRTH, 22 MAI 2018

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Eitem 6: Llyr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Eitem 7, 8 a 9: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 MAI

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 8 Mai 2018, fel rhai cywir

## 6. RHAGLEN ADFYWIO NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU - TRIP

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd i:

- Gymeradwyo’r Strategaeth Adfywio Rhanbarthol ddrafft er mwyn ei chyflwyno I Lywodraeth Cymru
- Gofyn fod ymrwymiad o fewn y Strategaeth ddrafft bod gwaith adnabod ac ymateb i faterion sy’n ymwneud ag amddifadedd gweledig yn derbyn sylw yn ystod 2018/19
- Fod gwaith pellach yn cael ei wneud er mwyn ystyried cyfleoedd posib or Rhaglen TRI gyda’r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach i’r Cabinet yn amlinellu cynigion arfaethedig.
- Ofyn i swyddogion adolygu’r strwythur llywodraethu er sicrhau bod ei fod yn fwy clir ac eglur

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi gan fod yr eitem yn un rhanbarthol ac y bydd angen ei drafod ym mhob un o’r Cynghorau ar hyd Gogledd Cymru. Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi’r angen am Gynllun Adfywio Rhanbarthol, ac y bydd angen cyflwyno a chymeradwyo’r Cynllun cyn y byddai’r Llywodraeth yn derbyn ceisiadau am fuddsoddiad. Nodwyd mai nod y rhaglen yw i gefnogi prosiectau sydd yn hyrwyddo adfywiad economaidd, ac y bydd y rhaglen yn gallu ystyried cyfraniad buddsoddiad cyfalaf o hyd ar 70%.

Ymhelaethwyd ar flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y Strategaeth Adfywio gan nodi er mwyn adnabod ardaloedd o angen fod y Strategaeth ddrafft yn cyfeirio’n bennaf ar ddata Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru. Pwysleisiwyd fod y strategaeth yn argymell y blaenoriaethau prosiectau adfywio canol tref y 4 anheddle sef Rhyl, Wrecsam, Bangor a Bae Colwyn.

Ychwanegwyd fel rhan o’r gwaith paratoi ym Mangor fod Partneriaeth Dinas Bangor wedi ei sefydlu, ac mae gwaith pellach wedi ei wneud i baratoi strategaeth adfywio ar gyfer y ddinas sy’n seiliedig ar dair prif thema. Nodwyd fod angen gwaith rhagbaratoi pellach ar gyfer datblygu cynigion amlinellol yn prosiectau manwl, ac ychwanegwyd fod y rhaglen waith yn cael ei adolygu gan y Bartneriaeth.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth

- Holwyd gyda dyraniad ariannol sydd wedi yn rannu yn dri rhan, a fydd modd i arian gael ei rannu ar draws y sir ar gyfer ail neu’r trydydd rhan, nodwyd y bydd modd datblygu prosiectau tu hwnt i’r lleoliadau sydd wedi ei nodi fel blaenoriaethau.
- Trafodwyd y Cronfa Datblygu Prosiect ar gyfer pob rhanbarth, a fydd yn darparu cyfraniad 50% ar gyfer costau prosiectau’n gynnar, holwyd os mai y Cyngor fydd angen dod o hyd i’r 50% arall. Ymatebwyd gan nodi nad yw’r arian yn gorfod dod gan y Cyngor, yn dibynnol ar y prosiect bydd modd gofyn i sefydliad arall sydd yn rhan o’r bartneriaeth i gyfrannu’r 50%.
- Tanlinellwyd y ffaith y byddai angen darganfod 30% o gost unrhyw gynllun ac felly pe byddai hynny yn disgyn ar y Cyngor byddai’n rhaid iddo

gystadlu yn erbyn cynlluniau eraill yn y Cynllun Asedau.
- Nodwyd fod y strwythur yn y strategaeth i'r gweld yn un cymhleth, mynegwyd fod gwaith pellach i'w wneud ac y bydd elfen o atebolrwydd i'w gweld ar bob cyngor. Nodwyd fod angen i'r Strwythur fod yn fwy clir.
- Nodwyd y bwriad i gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet, fydd yn nodi cynigion penodol a'r pecyn ariannol, er mwyn medru ystyried a yw'r Cyngor am roi unrhyw arian cyfatebol i'r cynlluniau hynny.

## 7. TROSOLWG ARBEDION 2017/18: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion yn ystod 2017/18

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ar ddiwedd blwyddyn ariannol fod angen trosolwg o'r arbedion a gyflawnwyd. Cychwynnwyd gan nodi fod y cynlluniau adrannol ar gyfer 2016/17 mai dim ond dau gynllun sydd bellach yn disgwyl i gael ei gwireddu yn ystod 2018/19, ac yn nhermau ariannol mae dros 99% o arbedion 2015/16 a 2016/17 bellach wedi'u gwireddu. Edrychwyd ar gynlluniau arbedion 2017/18, ac o'r 122 o gynlluniau mae 108 wedi eu gwireddu'n llawn neu yn rhannol yn amserol. Nodwyd yn nhermau ariannol, roedd 81% o'r arbedion wedi'u gwireddu.

Ymhelaethwyd ar y cynlluniau sydd wedi llithro a nodwyd fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cyflwyno eu cynlluniau arbedion newydd i'r Cabinet a rhagwelir y bydd yn galluogi'r adran i wneud cynnydd sylweddol tuag at wireddu'r arbedion sydd wedi llithro. Nodwyd wrth edrych ar y Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd ac yr Adran Priffyrdd fod angen cyflwyno adroddiad i'r Cabinet sy'n amlinellu'r cynlluniau amgen i wireddu arbedion ariannol perthnasol.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid roedd cynnydd boddhaol ar draws y Cyngor i wireddu tua £6 miliwn o arbedion yn 2017/18.

O ran cynlluniau sydd ar y gweill i'w gwireddu yn 2018/19 nodwyd fod y cynlluniau yn edrych yn addawol, ac fod yr Aelod Cabinet yn fodlon iawn gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu'r cynlluniau arbedion 2017/18.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Bu i'r tri aelod Cabinet, ble mae cynlluniau wedi llithro, nodi fod gwaith yn cael ei wneud i ail edrych ar eu cynlluniau ac fod camau yn ei lle ar gyfer gwireddu'r arbedion sydd wedi llithro.
- Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr gyfleu diolchiadau'r Cabinet i holl staff y

Cyngor am eu gwaith yn dod o hyd i'r arbedion a'u gwireddu tra ar yr un pryd yn llwyddo i gadw ansawdd uchel y gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan gydnabod nad yw'n broses hawdd.

## 8. CYFRIFON TERFYNOL 2017-18 - ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2017/18.

1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef –

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (100) |
| Plant a Theuluoedd | 100 |
| Addysg | 0 |
| Economi a Chymuned | (35) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100 |
| Amylchedd (Rheoleiddio gynt) | (100) |
| Ymhynghoriaeth Gwynedd | (82) |
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (66) |
| Cyllid | (66) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (67) |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2) –

- Trosglwyddo £457k, cyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros y gaeaf i gronfa benodol er mwyn cefnogi hyblygrwydd a hwyluso trawsffurfio yn y maes Oedolion i'r dyfodol.
- Cynaeafu (£37k) o'r tanwariant sef y swm uwchlaw (£100k) Oedolion, Iechyd a Llesiant, i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.
- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £676k i leddfu rhan helaeth o orwariant 2017/18, gan ganiatáu iddynt symud ymlaen i wynebu her 2018/19.
- Trosglwyddo £207k ei ddileu gorwariant yr Adran Addysg, tra fod polisiau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu.
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £203k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2018/19.
- Trosglwyddo £378k o danwariant 2017/18 yr Adran Amgylchedd i gronfa benodol, yn ymwneud â bysus a chost llwybrau, i'w ddefnyddio yn 2018/19.
- Cynaeafu (£89k) o danwariant yr Adran Amgylchedd sef y swm uwchlaw

(£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.

- Cynaeafu (£894k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol (ar Ostynigiad Treth Cyngor, bidiau a chyllidebau a ddychwelwyd gan adrannau ac ar benawdau eraill), a'i drosglwyddo i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2017/18.
- Trosglwyddo £66k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol, sef y balans sydd angen, i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, sef:

- Cynaeafu (£2.915m).
- Neilltuo £2.749m ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Neilltuo £166k ar gyfer materion gwastraff.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen i'r Cabinet i gymeradwyo'r sefyllfa ariannol derfynol 2017/18 er mwyn ir Adran Gyllid symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol cyn 30 Mehefin. Ymhelaethwyd gan nodi fod sefyllfa ariannol mwyafrif o'r adrannau yn tanwario am 2017/18. Ychwanegwyd fod gwelliant sylweddol i sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion yn ystod y chwarter olaf yn dilyn derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn.

Nodwyd fod gorwariant ar wasanaethau penodol yn yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd, Adran Addysg a Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Ychwanegwyd yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2017/18, mae ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebau 2018/19 ac o ganlyniad mae mwyafrif o'r materion hyn eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2018/19.

Ychwanegwyd fod tanwariant un tro yn nifer o benawdau y gyllideb gorfforaethol ddiwygiedig am 2017/18, a nodwyd y bydd y tanwariant net yma ar gael i liniaru gorwariant adrannau, gyda cyfraniad o £66k pellach, i'w rhyddhau o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- O ran yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol nodwyd y rhesymau dros yr or wariant gan nodi fod trefniadau yn ei lle i edrych ymhellach ar y problemau oedd yn codi.
- Wrth edrych ar gludiant integredig, nodwyd fod cymorth ariannol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ail-dendro teithiau bysus, ond ychwanegwyd fod problemau yn parhau ac o ganlyniad fod y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i gwrdd a'r costau cysylltiedig yn 2018/19.
- Mynegwyd fod gwaith yn mynd rhagddi wrth edrych ar gludiant o fewn yr Adran Addysg.

**9. RHAGLEN GYFALAF 2017-18 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN**

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad sef:

- Cynnydd £4,514,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- Cynnydd £326,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- Lleihad £371,000 mewn defnydd o fenthyca arall
- Lleihad £335,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Lleihad £53,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- Lleihad £65,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod dadansoddiad fesul adran o'r rhaglen gyfalaf £51.733m i'w gweld yn rhan 3 o'r adroddiad. Ychwanegwyd fod cynnydd net o £4.016m ers yr adolygiad diwethaf ac fod hyn yn adlewyrchiad o waith caled yr adrannau. Nodwyd fod £15.6m o'r gyllideb gwariant yn llithro o 2017/18, ond pwysleisiwyd nad oedd unrhyw golled ariannu grant o ganlyniad i hyn.

Diolchwyd i staff yr Adran Gyllid am eu gwaith caled yn cau y cyfrifon ac hynny wrth i'r amserlen gael ei gwtogi.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu gwaith dros drigolion Gwynedd a hynny yn wyneb arbedion.
- Ychwanegwyd fod yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi derbyn grant ychwanegol o £2m gan y Llywodraeth ar gyfer lonydd, a bydd y gwaith yn cychwyn gyda Lonydd dosbarth C.
- Bu gwariant cyfalaf sylweddol ar Ysgolion / Addysg, bydd yn disgyn o ganlyniad i gynllun Llywodraeth Cymru dod i ben.

## 10. PARATOI AT DDYFODOL ARIANNOL ANEGLUR

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

- Ddygymod gyda'r sefyllfa ariannol aneglur yr ydym yn ei wynebu o 2019/20 ymlaen drwy ddilyn y drefn a nodir yng nghymal 10 yr adroddiad
- Gosod cyfundrefn yn ei le er mwyn sicrhau fod pob Adran wedi edrych ymhob twll a chornel am arbedion effeithlonrwydd

- Comisiynu adolygiad o haenau rheolaethol o fewn y Cyngor (gan gynnwys Craffu yn y broses honno) I'w cwblhau yn ystod y flwyddyn galendr ei mwyn sicrhau fod ei nhrefniadau rheolaethol yn addas at ei bwrpas.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi nad oes argoel ar hyn o bryd fod y cyfyngiadau ariannol mae'r Llywodraeth yn eu gosod ar Llywodraeth Leol am ddod i ben yn fuan. Ychwanegwyd fod angen edrych ar arbedion er mwyn blansio'r llyfrau ond ceisio gwneud hynny heb effeithio yn andwyol ar bobl Gwynedd.

Ychwanegwyd fod trefn posib wedi ei nodi yn y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2017 a oedd yn golygu dechrau amlygu'r dewisiadau posib ar gyfer arbedion. Yn dilyn trafodaeth gyda Cadeiryddion ac Is gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu nodwyd fod angen efallai edrych ar ffordd wahanol o ddygymod gyda'r sefyllfa.

Esboniwyd y drefn newydd gan nodi fod y drefn yma yn taro'r balans rhwng sicrhau nad yw'r Cyngor yn gor ymateb, ond fod y Cyngor yn barod i gwrdd a'r amrediad o bosibiliadau ariannol allasai godi yn flynyddol. Ychwanegwyd fod angen sicrhau fod pob gronyn o arbedion effeithlonrwydd hefyd wedi ei wasgu allan, a bydd gofyn ar pob adran i sicrhau fod yr arbedion yn cael eu gwneud. Yn ychwanegol at hyn, argymhellwyd fod y Cabinet yn comisiynau adolygiad o'r drefn rheolaethol. Tanlinellwyd y ffaith na ddylid rhagdybio fod hyn am arwain at unrhyw arbediad ariannol ond 'roedd yn arferiad da i gymryd golwg ar y mater i sicrhau fod ein trefniadau rheolaethol yn addas at bwrpas ac yn gyson draws yr adrannau.

Pwysleisiwyd fod y Cyngor yn paratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf o ran arbedion, ond gobeithio am y gorau. Ymhelaethwyd y bydd yr union arbedion fydd eu hangen yn ddibynnol ar faint y bwlch y bydd angen ei gyfarch yn ddibynnol ar y grant y Llywodraeth, a daw hynny'n amlwg yn yr hydref.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.20 y.h.

**CADEIRYDD**